**PECYN GWYBODAETH**
**TYMOR YR HYDREF 2025**

Ysgol Gyfun Gŵyr
Gorau byw cyd-fyw

**INFORMATION PACK**
**AUTUMN 2025**

Medi 2025 / September 2025

Annwyl Rieni/Warcheidwaid

Mae'n bleser gennyf gysylltu â holl rieni a gwarchodwyr y dysgwyr a fydd yn dechrau gyda ni yn Ysgol Gyfun Gŵyr ym mis Medi 2026 a hynny er mwyn eich hysbysu am y digwyddiadau sydd gennym yn ystod y tymor hwn.

Yn y pecyn hwn, ceir gwybodaeth am y:

1. Noson Agored
2. Proms Lleisiol
3. Cwrs Preswyl i Langrannog

Gofynnwn yn garedig i chi ddarllen yr wybodaeth a dychwelyd yr wybodaeth sy'n berthnasol i Langrannog i'r ysgol gynradd erbyn y dyddiad a nodir.

Edrychwn ymlaen yn fawr at eich cwrdd dros y misoedd nesaf!

Dear Parents/Guardians

It gives me great pleasure to contact all the parents and guardians of learners who will start with us at Ysgol Gyfun Gŵyr in September 2026 to let you know about some important events during this Autumn term.

In this pack, you will find information about the:

1. Open Evening
2. Vocal Proms
3. Llangrannog Residential Course

We kindly ask that you read the information enclosed, returning the information required for Llangrannog to the primary school, by the date noted.

We look forward to meeting you over the coming months!

Yn gywir / Yours faithfully

Miss Rachel Nicholson

Pennaeth: Mr Jeffrey Connick BA
Stryd Talbot, Tre-gŵyr, Abertawe, SA4 3DB Ffôn: (01792) 872403 Ffacs: (01792) 874197
E-bost: ysgol.gyfun.gwyr@swansea-edunet.gov.uk | https://www.yggwyr.org.uk

Gwobr Cwricwlwm Ysgolion Schools Curriculum Award
Heartbeat Award Gwobr Curiad Calon
The Dyslexia Friendly School Standards
SportsMarc
INVESTORS IN PEOPLE | BUDDSODDWYR MEWN POBL
We Are A ... Fairtrade School Rydyn Ni'n Ysgol... Masnach Deg

Ysgol Gyfun Gŵyr

Gorau byw cyd-fyw

*Cydlynydd Pontio CA2-3 / Transition Co-ordinator KS2-3*

**1**

**NOSON AGORED:**

**Nos Fawrth, 7ed o Hydref, 5.45-7.30yh**

**Noson Arbennig ar gyfer rhieni/ gwarchodwyr a dysgwyr Bl 6:**

**Ysgol Gynradd Gymraeg Pontybrenin ac Ysgol Gynradd Gymraeg Y Login Fach**

Hoffwn eich gwahodd yn ffurfiol i Noson Agored Ysgol Gyfun Gwyr, a fydd yn cael ei chynnal nos Fawrth Hydref y 7fed.

Bydd rhai ohonoch, sydd â phlant hŷn efallai, yn gyfarwydd iawn â ni yma yn Ysgol Gyfun Gŵyr - yn gwybod am y math o awyrgylch rydym yn meithrin yma, yr amrywiol brofiadau rydym yn ceisio eu cyflwyno i'n dysgwyr, y math o agweddau rydym am ddatblygu ac am y pwysigrwydd mawr rydym yn ei roi ar ddatblygiad pob unigolyn i'w llawn botensial. Ond i'r rhai ohonoch chi'n sy'n llai cyfarwydd, gobeithiwn y bydd y noson yn gallu rhoi blas i chi o'r hyn yr ydym yn ei gynnig.

Bydd y noson yn cychwyn gyda chroeso ffurfiol gan y Pennaeth yn y Ffreutur am 5.45yh. Yn ystod y noson, cewch gyfle i gyfarfod â rhai o'r athrawon ac i holi mwy am y pethau sy'n bwysig i chi - ein cwricwlwm, ein gweithgareddau, ein polisiau, ein darpariaeth arbenigol a llawer mwy. Bydd cyfle i i chi ymweld ag adrannau amrywiol wrth fynd ar daith o gwmpas ein safle, a chyfle i'ch plentyn gymryd rhan mewn gwahanol weithgareddau wrth fynd o le i le. Gallwch hefyd brynu te a choffi yn ystod y noson.

Mae ein perthynas ni fel ysgol â'n rhieni/ gwarchodwyr yn un sy'n bwysig iawn i ni ac yn un rydym yn ymfalchio ynddi. Edrychwn ymlaen i adeiladu ar y sylfaen gadarn a hapus sy'n bodoli eisoes gan groesawu nifer o gyfeillion newydd i'n plith. Edrychwn ymlaen yn fawr at eich cyfarfod a'ch croesawu yma i'n hysgol.

**CYRRAEDD A PHARCIO:**

Oherwydd niferodd y dysgwyr sydd am ymuno ag Ysgol Gyfun Gŵyr ym mis Medi 2026, rhagwelir y bydd anawsterau cael mynediad a pharcio ar brif safle'r ysgol. **Ni fydd** mynediad i faes parcio llyfrgell Tre-Gŵyr nac ein maes parcio cefn a rhaid ystyried mannau eraill ar gyfer parcio eich car a cherdded i safle'r ysgol. Cynigir y safleoedd canlynol :

- prif safle'r ysgol gan ddefnyddio'r heol arferol - sef Stryd Talbot
- ein safle bysus ar Heol y Parc
- maes parcio ym mhentref Tre-Gŵyr ger Tafarn y Commercial.

Hefyd hoffwn eich hysbysu bod tagfeydd ym mhentref Tre-Gŵyr ar adegau cychwyn y noson agored ac felly awgrymwn eich bod yn neilltuo digon o amser ar gyfer cyrraedd ein safle gan y byddwn yn dechrau'r noson yn brydlon am 5.45 yr hwyr.

Pennaeth: Mr Jeffrey Connick BA
Stryd Talbot, Tre-gŵyr, Abertawe, SA4 3DB Ffôn: (01792) 872403 Ffacs: (01792) 874197
E-bost: ysgol.gyfun.gwyr@swansea-edunet.gov.uk | https://www.yggwyr.org.uk

Ysgol Gyfun Gŵyr
Gorau byw cyd-fyw

1

## OPEN EVENING:

**Tuesday 7th of October, 5.45-7.30pm**

**An evening for parents/ guardians and Year 6 pupils of:**

**Ysgol Gynradd Gymraeg Pontybrenin and Ysgol Gynradd Gymraeg Y Login Fach**

We would like to formally invite you to Ysgol Gyfun Gwyr's Open Evening, which will be held on Tuesday October 7th 2025.

Some of you, who may have older children, will already be quite familiar with us all here at Ysgol Gyfun Gŵyr - the atmosphere we nurture, the variety of experiences we endeavour to introduce to all our learners, the types of attitudes we strive to foster and the great importance we place on the development of each individual to their full potential. But for others who are currently less familiar with us, we sincerely hope that this evening will provide a taste of what we offer.

The evening will begin with a formal welcome from the Headteacher in the 'Ffreutur' at 5.45pm. During the evening, you'll also have an opportunity to meet some of our teaching staff and ask about matters important to you – our curriculum, our activities, our policies, our specialist provision, and much more. You will be able to tour the school site, visiting different departments, where your child will be able to take part in some activities as you go. Tea and coffee will also be available to buy on the evening.

Our relationship with our parents/ guardians is very important to us as a school and one in which we take great pride. We look forward to building on the strong and happy foundation which already exists by welcoming new friends to our midst. We look forward to meeting you all and to welcome you to our school.

**ARRIVING AND PARKING:**

Due to the number of learners expected to start at Ysgol Gyfun Gŵyr in September 2026, we foresee that there may be difficulties in accessing and parking on the main school site. There will be no access to Gowerton Library car park or our back car park, therefore we would ask you to use other parking locations available:

- the main school campus with access through the usual route of using Talbot Street
- our school bus bay on Park Road, Gowerton,
- Gowerton village car park by the Commercial Inn.

We would also advise that there is always traffic congestion in Gowerton village at the same time as our open evening and therefore we advise you to consider this fact in your travel arrangements as we aim to start promptly at 5.45pm.

Pennaeth: Mr Jeffrey Connick BA
Stryd Talbot, Tre-gŵyr, Abertawe, SA4 3DB Ffôn: (01792) 872403 Ffacs: (01792) 874197
E-bost: ysgol.gyfun.gwyr@swansea-edunet.gov.uk | https://www.yggwyr.org.uk

Gwobr Cwricwlwm Ysgolion Schools Curriculum Award
HEARTBEAT AWARD GWOBR CURIAD CALON
The Dyslexia Friendly School Standards
SportsMarc
INVESTORS IN PEOPLE | BUDDSODDWYR MEWN POBL
We Are A ... Fairtrade School Rydyn Ni'n Ysgol... Masnach Deg

Ysgol Gyfun Gŵyr
Gorau byw cyd-fyw

| 2 | **PROMS LLEISIOL** |
|---|---|

**Dydd Iau 23ain o Hydref 2025**

Cyfle yw'r Proms i gael corau Ysgol Gyfun Gŵyr i gydweithio gyda chorau ysgolion cynradd blwyddyn 6 cymuned Gŵyr, ac i chi allu mwynhau eu clywed yn cyd-ganu wrth iddyn nhw i gyd ddod at ei gilydd am y tro cyntaf!

Bydd yr ysgolion cynradd yn trefnu trafnidiaeth i Ysgol Gyfun Gŵyr ar fore'r 23ain o Hydref. Bydd angen i'r holl ddysgwyr wisgo gwisg ysgol eu hysgolion cynradd ac i ddod â byrbryd a diod. Dyma i chi fwy o fanylion am drefniadau'r diwrnod:

| Amser | Gweithgaredd |
|---|---|
| 11.30 – 11.50 | Cyrraedd safle YGG am 11.30 y bore.<br>Ymgartrefu a gair o groeso gan y Pennaeth. |
| 11.50 – 12.40 | Bwyd a diod yn cael ei ddarparu yn y Ffreutur am ddim. |
| 12.40 – 2.20 | Ymarfer ar gyfer y Proms Lleisiol yn y Gampfa. |
| 2.20 – 3.10 | Mentoriaid blwyddyn 7 yn rhoi taith i flwyddyn 6 o amgylch yr ysgol. |
| 3.10 - 3.45 | Egwyl a chyfle i fwyta byrbryd. |
| 3.45 – 4.45 | Cwis yn y Ffreutur o dan arweiniad Menter Iaith Abertawe. |
| 5.00 | Cyngerdd yn dechrau. |
| 6.00 | Cyngerdd yn gorffen. |

Ar ôl y gyngerdd, bydd rhieni/ gwarchodwyr yn casglu eu plant yn ddiogel wrth aelod staff eu hysgolion cynradd er mwyn mynd adref.

Edrychwn ymlaen yn eiddgar at eich croesawu unwaith eto.

**Am fanylion parcio ar y noson, gweler yr wybodaeth am y Noson Agored!**

Pennaeth: Mr Jeffrey Connick BA
Stryd Talbot, Tre-gŵyr, Abertawe, SA4 3DB Ffôn: (01792) 872403 Ffacs: (01792) 874197
E-bost: ysgol.gyfun.gwyr@swansea-edunet.gov.uk | https://www.yggwyr.org.uk

Gwobr Cwricwlwm Ysgolion Schools Curriculum Award
HEARTBEAT AWARD GWOBR CURIAD CALON
The Dyslexia Friendly School Standards
SportsMarc
INVESTORS IN PEOPLE | BUDDSODDWYR MEWN POBL
We Are A ... Fairtrade School Rydyn Ni'n Ysgol... Masnach Deg

Ysgol Gyfun Gŵyr
Gorau byw cyd-fyw

**2** **VOCAL PROMS**

**Thursday 23rd October 2025**

This concert is an opportunity for the Gŵyr school choirs to work with the year 6 cluster primary schools choirs, and a chance for you to enjoy hearing them sing as one, as they all come together for the very first time!

Transport will be arranged for pupils by the primary schools for the morning of the 23rd October. We ask that you could provide your child with a drink and snack and that learners wear their school uniform. Please see below for further details of the day's activities:

| Time | Activity |
|---|---|
| 11.30 – 11.50 | Arrive at YGG at 11.30am.<br>Welcome from the Headteacher. |
| 11.50 – 12.40 | Food and drink provided in the school Ffreutur, free of charge |
| 12.40 – 2.20 | Vocal Proms practise in the Sports Hall |
| 2.20 – 3.10 | Year 7 mentors to guide year 6 learners around the school site |
| 3.10 – 3.45 | Breaktime and an opportunity to eat their snack. |
| 3.45 – 4.45 | Quiz in the Ffreutur, lead by Menter Iaith Abertawe. |
| 5.00 | Concert to begin in the Sports Hall. |
| 6.00 | Concert to end |

At the end of the concert, parents and guardians will collect each child safely from their primary school staff member, to return home.

We look forward to welcoming you again.

**For parking arrangements on the evening, please see information on Open Evening letter!**

Pennaeth: Mr Jeffrey Connick BA
Stryd Talbot, Tre-gŵyr, Abertawe, SA4 3DB Ffôn: (01792) 872403 Ffacs: (01792) 874197
E-bost: ysgol.gyfun.gwyr@swansea-edunet.gov.uk | https://www.yggwyr.org.uk

Gwobr Cwricwlwm Ysgolion Schools Curriculum Award
QS
HEARTBEAT AWARD GWOBR CURIAD CALON
The Dyslexia Friendly School Standards
SportsMarc
INVESTORS IN PEOPLE | BUDDSODDWYR MEWN POBL
We Are A ... Fairtrade School Rydyn Ni'n Ysgol... Masnach Deg

Ysgol Gyfun Gŵyr

Gorau byw cyd-fyw

## CWRS PONTIO Bl 6-7: GWERSYLL YR URDD LLANGRANNOG

Dyddiadau'r cwrs yw **Mehefin 24 – 26 2026**, a'i fwriad yw i ddod ag holl ddysgwyr Blwyddyn 6 o'r ysgolion cynradd sy'n ein bwydo ni ynghyd i ddod i adnabod ei gilydd yn well mewn awyrgylch hwyliog! Bydd rhaglen fanwl ar gyfer y dysgwyr a digon o gyfle i fwynhau gweithgareddau a chyfleusterau'r gwersyll hefyd. Yn ogystal â hynny bydd elfen gymdeithasol gref a chyfle gwych i wneud ffrindiau newydd mewn awyrgylch gwbl Gymreig.

Cost y cwrs preswyl hwn yw £180 y pen. Bydd cyfraniad o £90 tuag at gostau i deuluoedd sy'n derbyn prydau ysgol am ddim. Gofynnwn i chi dalu blaendal o £50 i'r ysgolion cynradd erbyn y 24ain o Hydref, a gweddill yr arian erbyn 17eg o Ebrill 20265

I sicrhau lle ar y cwrs, gofynnwn felly i chwi **lenwi'r atodiad isod** a'i ddychwelyd i athro ysgol gynradd eich plentyn, **gyda'r blaendal o £50** erbyn **24ain o Hydref 2025**.

## YEAR 6-7 TRANSITION COURSE: GWERSYLL YR URDD, LLANGRANNOG

The course will be held between **June 24th – 26th 2026** and is intended to bring together all Year 6 learners in our feeder primary schools, to get to know each other in an informal and relaxed environment. A detailed programme will also be prepared for the learners that will include many opportunities for enjoying the activities and facilities of the camp. In addition to this, there will be a strong social element and an excellent opportunity to make new friends in a totally Welsh atmosphere.

The cost of this residential course is £180**.** A contribution of £90 will be made to families who receive free school meals. A deposit of £50 should be paid to the primary school by the 24th of October, and the remaining balance by the 17th of April, 2026.

To secure a place on the course, please **complete the form below** and return to the primary school, **with the deposit of £50** by the **24th of October, 2025.**

---

Enw'r Plentyn / *Child's name:*…………………………………………………………………….

Hoffwn / Ni hoffwn* i fy mhlentyn fynd i Langrannog (*dilëir fel bo angen)

I wish / do not wish* for my child to go to Llangrannog (*delete as appropriate)

Llofnod Rhiant/Warcheidwad / *Parent / Guardian signature:* ..........................................……………..
Dyddiad / *Date*: ……………………

Pennaeth: Mr Jeffrey Connick BA
Stryd Talbot, Tre-gŵyr, Abertawe, SA4 3DB Ffôn: (01792) 872403 Ffacs: (01792) 874197
E-bost: ysgol.gyfun.gwyr@swansea-edunet.gov.uk | https://www.yggwyr.org.uk

Gwobr Cwricwlwm Ysgolion Schools Curriculum Award | QS | Heartbeat Award Gwobr Curiad Calon | The Dyslexia Friendly School Standards | NPFA SportsMarc | Investors in People Buddsoddwyr Mewn Pobl | We Are A… Fairtrade School Rydyn Ni'n Ysgol… Masnach Deg

Ysgol Gyfun Gŵyr
Gorau byw cyd-fyw

Pennaeth: Mr Jeffrey Connick BA
Stryd Talbot, Tre-gŵyr, Abertawe, SA4 3DB Ffôn: (01792) 872403 Ffacs: (01792) 874197
E-bost: ysgol.gyfun.gwyr@swansea-edunet.gov.uk | https://www.yggwyr.org.uk